**Cofnodion Cyfarfod a Gynhaliwyd am 7.30pm ar nos Lun 9 Mehefin 2014**

Yn bresennol: Cynghorwyr Mrs Philippa Davies, Andrew Howell, Terry Griffiths, Aled Jones, Keith Evans, Wyn Evans, Mrs Carolyn Reed-Rees (Clerc dros dro), Doug Davies, Mrs Eileen Curry a Tom Cowcher (Cadeirydd)

Personol: Dywedodd y Cadeirydd bod y Clerc wedi gobeithio mynychu'r cyfarfod, ond ei bod wedi cael plastr arall ar ei choes, felly nid oedd modd iddi fynychu.
Dywedodd Cyng Mrs Philippa Davies bod Cynghorydd Sir Peter Davies wedi cael gwobr, a phenderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon ein llongyfarchiadau ato.
Y gobaith oedd y byddai Mr Parry Davies yn ymweld â ni ar ddechrau ein Cyfarfod er mwyn rhoi gwybodaeth i ni am Gartref Preswyl Awel Deg. Nid oedd modd iddo fynychu ac er bod cydweithiwr wedi ymateb mewn neges e-bost i ymholiadau a wnaethpwyd gan Gyng Keith Evans, nid oedd yr ymateb yn ateb y cwestiynau a ofynnwyd. Penderfynwyd gofyn i Mr Davies fynychu cyfarfod yn y dyfodol ar unrhyw nos Lun a fyddai'n gyfleus iddo.

1 Ymddiheuriadau:
Cynghorwyr Miss Beth Davies, Peter Davies a Peter Evans

1 Datgelu Buddiannau – Dim

2 Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2014 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. (Gwnaethpwyd un diwygiad: i Eitem 4. Mrs Eileen Curry - Tre-groes.

*3* Materion yn Codi:
*8.* Nodwyd bod yr Asesiad risg wedi cael ei gymeradwyo gan Ron Foulkes a bod hwn wedi cael ei anfon ymlaen at yr holl aelodau.
*15.8* Nodwyd na chafwyd unrhyw ymateb gan Radio Beca hyd yn hyn.
*17* Rhoddion: Capel Carmel – cadarnhaodd Cyng Keith Evans nad ydynt wedi cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion (CSC) hyd yn hyn. Penderfynwyd nodi ein bod yn gefnogol o'r gwaith sy'n ofynnol, a gofyn i'r Capel ofyn am gronfeydd gan CSC yn gyntaf.
*18* Llywodraeth Cymru – dywedodd Cyng Eileen Curry ei bod wedi darllen y papur ac nad yw'n cynnwys unrhyw bryderon ar gyfer Cyngor Cymuned Llandysul.
*20* Awel Deg – Y gobaith oedd y byddai Mr Parry Davies yn mynychu'r cyfarfod i ateb rhai cwestiynau gan aelodau, ond cawsom wybod nad oedd modd iddo fynychu. Darllenodd Cyng Tom Cowcher ymateb e-bost i'r cwestiynau a ofynnwyd gan Gyng Keith Evans, ond nid oedd y wybodaeth yn ddigon eglur. Felly, penderfynwyd ysgrifennu eto a gofyn i Mr Parry Davies fynychu cyfarfod ychwanegol i'w gynnal ar unrhyw nos Lun.
*21.* Paentio Meinciau - Cafwyd rhestr o'r meinciau yn nhref Llandysul - dylai'r aelodau fwrw golwg dros y neges e-bost ac ymchwilio i'r safleoedd a chyflwr y meinciau. Dylai cynghorwyr y wardiau y tu allan i'r dref ychwanegu meinciau yn eu hardal nhw i'r rhestr. Bydd Cyng Wyn Evans yn cysylltu â chyflenwyr meinciau er mwyn cael gwybodaeth am y dewisiadau a'r prisiau, a bydd y Clerc yn edrych mewn cylchgronau dodrefn stryd a gafwyd yn ddiweddar. (Bydd angen cynnwys meinciau ar restr ein hasedau at ddibenion yswiriant ar ôl cwblhau'r rhestr, os nad ydynt eisoes wedi cael eu cynnwys yn y rhestr. Bydd y Clerc yn cadarnhau pa feinciau y mae pwy yn berchen arnynt) I'w gynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf.
*22* Cynnal a chadw/Cynllunio - Bydd y Clerc yn cysylltu â Richard Bramley o Farmyard Nurseries er mwyn holi a ddylai'r gwaith plannu fod wedi cael ei wneud erbyn hyn. Bydd y Clerc yn gofyn am adroddiad bob tro y caiff y porfa ei dorri er mwyn i ni gadw golwg bod y gwaith yn cael ei wneud.

4 Rhoddion:

Gŵyl Pont-siân – Penderfynwyd cadarnhau ein cefnogaeth mewn egwyddor i'r ŵyl hon, ond y dylid gofyn iddynt geisio cronfeydd gan CSC yn y lle cyntaf a rhoi gwybod y canlyniad i ni.

(Gadawodd Cynghorydd Mrs Eileen Curry y cyfarfod)

Canolfan Ddŵr Llandysul – Gan nad yw'r aelodau yn ymwybodol o gyflwr presennol y pwll nofio ac maent yn gofyn am swm mawr (hefyd, o ganlyniad i'r ffaith bod y tir yn cael ei brydlesu gan CSC) ac o ystyried y ffaith ei bod yn ymddangos na fydd pwll nofio newydd yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig, penderfynwyd gofyn i gynrychiolydd fynychu cyfarfod gydag is-bwyllgor (a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd (Cyng Terry Griffiths) a Chynghorwyr Keith Evans ac Aled Jones) er mwyn ni gael y darlun llawn o'r sefyllfa cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch y mater pwysig hwn. (I'w gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf)

Y Garthen - Penderfynwyd gofyn i'r Garthen gysylltu â CSC i ofyn am gronfeydd, oherwydd credir bod ganddynt gronfeydd ar gael at ddibenion o'r fath yn benodol, a rhoi gwybod y canlyniad i ni.

Cymorth i Ddioddefwyr - Penderfynwyd ystyried y cais hwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Canolfan Geufad - ni chafwyd cais/cyfathrebu hyd yn hyn.

Cydnabod derbyn Rhodd: Sioe Llandysul a Charnifal Pren-gwyn; praesept CSC; ffi aelodaeth ULlC.

5 Gohebiaeth

CSC – Gohiriwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan 26 Medi 2014 – nodwyd

ULlC – Cafwyd cylchgrawn Y Llais

ULlC – Cytunwyd y bydd Cyng Andrew Howell yn parhau i'n cynrychioli yng nghyfarfodydd ULlC

ULlC – Cafwyd Rheoliadau Ariannol Drafft a rhoddwyd copïau i'r holl aelodau. Dylid eu darllen ac fe'u trafodir yn ystod y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Dylai'r aelodau eu cadw mewn ffeil gyda'r Cod Ymddygiad. (Bydd y Clerc yn anfon y rheoliadau ariannol presennol yr ydym yn cydymffurfio gyda nhw at yr holl aelodau mewn neges e-bost, er mwyn i'r aelodau eu cymharu). (Bydd y Clerc yn ychwanegu adolygiad o'r holl bolisïau ac ati i galendr, er mwyn sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal gan yr aelodau yn rheolaidd)

SLCC – Cafwyd cylchgrawn

Llywodraeth Cymru – Dogfen Ymgynghori ynghylch Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Tref a Chymuned - yn ymwneud â gwybodaeth electronig sydd ar gael trwy gyfrwng gwefan - Nodwyd bod ein gwefan ni yn cael ei chreu ar hyn o bryd, felly byddwn yn cydymffurfio gyda'r gofynion. (Bydd y Clerc yn cysylltu â Lesley Parker er mwyn cael gwybod pryd fydd y wefan yn 'fyw')

Llywodraeth Cymru – Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus – Digwyddiadau – Nodwyd

Banc NatWest – Mae angen i'r llofnodwyr ymweld â'r gangen leol gyda dau fath o brawf adnabod ffotograffig erbyn 3 Gorffennaf 2014

(Cadarnhaodd Cynghorwyr Andrew Howell, Doug Davies a Wyn Evans y byddant yn gwneud hynny)

Sefydliad Prydeinig y Galon – ynghylch Ysbyty Bronglais - Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Llanwyd ffurflen i'w dychwelyd

Anfonebau:

Llinos Jones £294.60; Cliand Computers £25.00; Abacus Cleaning £213.75

6 Seddau Gwag – Cafwyd posteri gan CSC ac fe'u dosbarthwyd i'r aelodau er mwyn iddynt eu harddangos yn yr hysbysfyrddau. Cyn gadael y cyfarfod, roedd Cyng Eileen Curry wedi awgrymu y dylid gwneud copïau o'r posteri hyn a'u hanfon at sefydliadau amrywiol yn Llandysul, megis Sefydliad y Merched ac ati, ynghyd â llythyr esboniadol yn sôn mwy am yr hyn y mae bod yn Gynghorwr Cymuned yn ei olygu, er mwyn ceisio ennyn mwy o ddiddordeb. Cytunwyd gofyn i'r Clerc drefnu hyn.

7 Hyfforddiant – Cafwyd neges e-bost gan CSC yn nodi bod Richard Duggan, a oedd i fod trefnu'r hyfforddiant, yn gadael, ac y byddai aelod o staff arall yn cyflawni'r rôl nawr ac yn cysylltu â ni i drefnu'r hyfforddiant.

8 Gwefan – (yn unol ag Eitem 6 – Gohebiaeth)

9 Cyngor Ieuenctid – Awgrymodd Cyng Tom Cowcher y bydd modd i ni gael pobl ifanc (o bosibl o ysgolion lleol, grwpiau sgowtiaid ac ati) i fynychu ein cyfarfodydd efallai, ac awgrymodd y posibilrwydd o sefydlu Cyngor Ieuenctid. Penderfynwyd ymchwilio i'r hyn y byddai sefydlu Cyngor Ieuenctid yn ei olygu cyn cysylltu ag unrhyw sefydliadau.

10 Neuadd Pont-siân - Dywedodd Cyng Philippa Davies y dylai llythyr fod wedi cyrraedd er mwyn i ni ei drafod, fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw lythyr hyd yn hyn. Penderfynwyd ysgrifennu at Neuadd Pont-siân gan ofyn bod amserlen/cynlluniau ar gyfer y gwaith arfaethedig yn cael eu hanfon atom ar unwaith, gan nad oes modd gwarantu'r cronfeydd a 'glustnodwyd' am gyfnod amhenodol.

(Penderfynwyd y dylid rhoi'r ffurflen gais ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf er mwyn ei hadolygu ac er mwyn i ni ychwanegu cymal sy'n ymwneud â hyd y cyfnod pan fydd yn rhaid gwario/hawlio unrhyw rodd.)

11 Cynllunio - Cafwyd llythyr ynghylch y Cyfarfod a gynhelir ar ddydd Mercher 11 Mehefin - nodwyd; A140282 Cabinetau Band Eang BT – cymeradwywyd – nodwyd; A140267 Heol Llyn y Fran – cymeradwywyd – nodwyd; A140174 Iard Pren-gwyn – cymeradwywyd – nodwyd; A140305 Tir gyferbyn â rhif 61 Y Ffawydd – nodwyd y cais; A140210 Hendre, Rhydowen – penderfynwyd hysbysu CSC, er nad oes unrhyw wrthwynebiadau penodol, ein bod yn nodi ei bod yn ymddangos na fu unrhyw ymgynghori a bod nifer y tyrbinau yn y Sir yn codi a bod hyn yn destun pryder.